



Adroddiad Monitro yr Iaith Gymraeg 2015 - 2016

Cyflwyniad

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn mynd ati i foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg statudol blaenorol, a gymeradwywyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ei ddisodli gan ofynion Safonau'r Gymraeg.

Yn dilyn creu Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru), cynhyrchwyd 176 o Safonau'r Gymraeg. Ym mis Medi 2015 derbyniodd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent Hysbysiad Cydymffurfiaeth oedd yn gosod gofyniad i weithredu 171 o'r 176 Safon. Roedd y Safonau i'w gweithredu mewn cyfnodau gan olygu fod yn rhaid cyflawni 144 Safon erbyn 30 Mawrth 2016 a'r 27 arall erbyn 30 Medi 2016.

Caiff y 171 Safon eu rhannu yn 'Cyflenwi Gwasanaethau', 'Llunio Polisi', 'Gweithredu', 'Cadw Cofnodion' a 'Hybu'. Cynhwysir y safonau llawn yn Atodiad B ac mae'r tabl islaw'n nodi nifer y Safonau ar draws pob maes ynghyd â'r dyddiadau y maent yn dod i rym:

Maes	Dyddiad dod i rym		Maes	Dyddiad dod i rym	
	30 Mawrth 2016	30 Medi 2016		30 Mawrth 2016	30 Medi 2016
Cyflenwi Gwasanaeth	75	7	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	6	-
Llunio Polisi	10	-	Atodol - Llunio Polisi	6	-
Gweithredol	32	15	Atodol - Gweithredol	6	-
Cadw Cofnodion	7	1	Atodol - Cadw Cofnodion	2	-
Hybu	-	2	Atodol - Hybu	-	2
Cyfan	124	25		20	2

Nod Safonau'r Gymraeg yw:

- Gwella'r gwasanaethau y gall pobl sy'n siarad Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau penodol yng Nghymru;
- Cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg;
- Egluro wrth sefydliadau'r hyn mae angen iddynt ei wneud yn nhermau'r Gymraeg; a
- Sicrhau mwy o gysondeb yn nhermau'r dyletswyddau a roddir ar gyrrff yn yr un sectorau.

Dan Safonau 158, 164 a 170, mae gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ddyletswydd i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn Gymraeg ar yr Iaith Gymraeg.

Yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar yr Iaith Gymraeg a gynhyrchwyd dan ofynion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru 2011 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016. Cyhoeddir yr adroddiad erbyn dim hwyrach na 30 Mehefin 2016 pan fyddwn yn rhoi cyhoedduswydd i'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol. Bydd copïau o'r adroddiad blynyddol ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sydd yn agored i'r cyhoedd.

Ceisiadau Herio

Ym mis Mawrth 2016 cyflwynodd y Cyngor gais herio yng nghyswllt 15 o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau gyda'r heriau'n canolbwyntio ar yr amserlen ar gyfer rhoi ar waith, yng nghyswllt Safonau 4, 5, 11, 19, 20, 26, 26a, 29, 29a, 30, 41, 46, 52, 62 a 64 (gweler Atodiad B). Er bod hynny tu allan i gwmpas yr adroddiad yma, cyflwynwyd cais herio pellach ym mis Ebrill 2016 yng nghyswllt Safonau 8, 9 14, 16, 17, 22 a 76.

Fel ar 2 Mehefin 2016 roedd Swyddfa Comisiynydd y Gymreag yn ystyried y ceisiadau herio. Fel canlyniad mae'r Safonau hyn wedi eu gohirio nes ceir penderfyniad, Serch hynny, mae'r Cyngor wedi llwyddo i weithredu bron dri chwarter y Safonau (a ddangosir mewn gwyrdd yn Atodiad B) ac rydym yn parhau i ymdrechu i weithredu gweddill y safonau yn llawn gan dderbyn fod ceisiadau herio ar tua 13% ohonynt.

Gofynion dan Safonau 158, 164 a 170

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried rhai enghreifftiau o'r cynnydd sylweddol a wnaed wrth ystyried y gofynion a'r ystod eang o ffyrdd y cefnogwyd y Cyngor i weithredu'r Safonau'n effeithlon.

Bydd yr adroddiad yn ystyried nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad sy'n ymwneud â dyletswyddau cydymffurfiaeth ar draws y safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi a'r safonau gweithredol.

Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried gofynion allweddol yng nghyswllt sgiliau cyflogaeth yn y Gymraeg, cyrsiau hyfforddiant i staff yn cynnwys unrhyw rai a ddarperir yn Gymraeg, yn ogystal â recriwtio yng nghyd-destun gofynion sgiliau yn y Gymraeg.

Cefnogaeth i Weithredu'r Safonau

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymroddedig i gadw a datblygu'r iaith Gymraeg ac mae wedi gweithredu'n ddwyieithog fel rhan o'r Cynlluniau Iaith Gymraeg gan fuddsoddi amser ac adnoddau sylweddol i fod mewn sefyllfa dda i gyflawni gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth. Mae'r wefan ddwyieithog, cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, opsiwn Cymraeg yn ein Canolfan Gyswllt yn ogystal â'r cylchlythyr hollol ddwyieithog a anfonir at bob cartref ymhlith y meysydd allweddol o ddatblygiad.

Cafodd gweithredu'r Safonau newydd ei arwain gan Dîm Polisi'r Cyngor, sydd wedi cefnogi'r Cyngor ar y camau gweithredu allweddol dilynol, gan nodi na fwriedir i'r rhestr hon fod yn un gynhwysfawr:

- **Cyflwyniadau/sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau etholedig (Cyngor llawn)**

Roedd hon yn sesiwn orfodol ar gyfer aelodau etholedig a dau gyflwyniad ar wahân (un yn ystod y dydd ac un gyda'r nos) ar Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2015. Roedd y cyflwyniad yn cyflwyno'r Safonau ac yna aeth i beth manylion ar yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd, ei oblygiadau a'r effaith a gâi pob Safon.

Dilynwyd hyn gan sesiwn cwestiwn ac ateb i alluogi aelodau i gynyddu eu dealltwriaeth a hefyd eu galluogi i fwydo mewn i'r broses ymgynghori.

- **Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Gwleidyddol**

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol Ehangach yn cynnwys y Cyfarwyddwr Arweiniol a Phennaeth Gwasanaethau Cyflogedig, Cyfarwyddwyr a phob Pennaeth Gwasanaeth ac mae felly'n cynnwys yr holl brif swyddogion. Y Tîm Rheoli Corfforaethol yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer elfen gorfforaethol y Cyngor. Rhoddwyd cyflwyniad ar oblygiadau'r Safonau ym mis Rhagfyr 2015, gyda sesiwn cwestiwn ac ateb i ddilyn. Cafodd y Tîm Rheoli Corfforaethol Ehangach ei ddiweddarau ar ddatblygiadau drwy adroddiadau mewnol.

- **Cyflwyniadau a thrafodaethau i bob Tîm Rheoli Adrannol**

Cytunodd y Tîm Rheoli Corfforaethol Ehangach y dylai pob Tîm Rheoli Adrannol gael cyflwyniad pwrpasol yn nodi'r goblygiadau i'w meysydd gwasanaeth. Derbyniodd pob adran o leiaf un cyflwyniad/gweithdy yn ystod Ionawr a Chwefror 2016.

Cynhaliwyd nifer sylweddol o gyfarfodydd/cyflwyniadau eraill fel canlyniad i'r Timau Rheoli Adrannol hyn lle rhoddwyd ystyriaeth fanylach i rai Safonau. Buddsoddwyd amser ac adnoddau sylweddol i sicrhau y cafodd pob rhan o'r Cyngor bob cyfle i ystyried y gofynion hyn.

- **Canllawiau Cymraeg i staff**

Cafodd amrywiaeth o ganllawiau byr, ymarferol a rhwydd eu dilyn eu cynhyrchu a chânt eu dangos ar dudalen benodol ar y Gymraeg ar fewnrwyd y Cyngor. Bydd

y canllawiau hyn yn cynorthwyo staff i weithredu llawer o'r safonau Cyflenwi Gwasanaeth, safonau Llundain Polisi a'r safonau Gweithredol mewn modd effeithlon. Mae'r canllawiau'n cynnwys disgrifio sut y dylai staff ateb y ffôn yn ddwyieithog, defnyddio templedi 'allan o'r swyddfa' dwyieithog, canllawiau ar gyfieithu, cyfarchion sylfaenol ac ymwadiadau gohebiaeth ac yn y blaen.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth llawn a chrynodeb llawn o'r Safonau sy'n cynnwys cyfrifoldebau staff hefyd ar gael ar y dudalen fewnrwyd. Cafodd y dudalen fewnrwyd ei hyrwyddo'n eang drwy nifer o ddulliau yn cynnwys y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, y Tîm Rheoli Corfforaethol ehangach a Neges y Cyfarwyddwr Arweiniol a Phennaeth Gwasanaethau Cyflogedig drwy e-bost mewnol i'r holl staff.

- **Prosiect Dewis Iaith**

Dechreuodd y Prosiect Dewis Iaith ym mis Mawrth 2016 ac mae'n ddarn sylweddol o waith i ddynodi dewis iaith dinasyddion, cwsmeriaid, partneriaid a staff.

Anfonwyd llythyr at bob aelwyd a busnes yn y fwrdeisdref sirol yn gofyn iddynt am eu dewis iaith (Cymraeg, iaith neu Ddwyieithog). Caiff yr wybodaeth ei chofnodi a'i rhannu ar draws adrannau'r Cyngor. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r prosiect wrth symud ymlaen i 2016-17.

Cafodd llythyr tebyg ar ddewis iaith ei anfon at bob aelod o'r staff. Cydlynwyd yr wybodaeth yma gan reolwyr llinell fel eu bod yn deall dewis iaith eu staff a bydd y dewisiadau yn parhau i gael eu cofnodi'n ganolog ar system adnoddau dynol iTrent y Cyngor.

Yn ychwanegol, mae llawer o feysydd gwasanaeth yn anfon holiaduron at eu partneriaid/cwsmeriaid i ganfod eu dewis iaith. Mae'r holl wybodaeth yma'n cefnogi'r Cyngor i adeiladu cronfa dystiolaeth i gyflenwi gwasanaethau Cymraeg i

bawb sy'n gofyn am hynny. Lle nad ydym wedi medru dynodi dewis iaith, byddwn yn sicrhau y bydd gohebiaeth yn hollol ddwyieithog.

- **Glanhau data ar wybodaeth staff**

Bydd yr adran Datblygu Sefydliadol yn parhau i lanhau'r data a gedwir ar system iTrent staff, fydd yn casglu a chofnodi gallu staff yn y Gymraeg yn ogystal â dewis iaith.

- **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae proses yr Asesiad wedi cynnwys elfen ar y Gymraeg ers cryn amser. Fodd bynnag, cafodd y ddogfen ei diwygio i danlinellu pwysigrwydd dynodi effeithiau 'cadarnhaol' yn ogystal ag effeithiau niweidiol, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, gan nodi'r safonau Llunio Polisi.

Yn ychwanegol, mae'r Asesiad yn ofyniad clir ar gyfer pob cynllun busnes corfforaethol adrannol a'r cynigion prosiect effeithiolrwydd ariannol, sy'n dynodi arbedion ariannol i'r Cyngor.

- **Disgrifiadau Swydd**

Cytunodd y Tîm Rheoli Corfforaethol y bydd pob disgrifiad swydd yn awr yn cynnwys maen prawf 'Cymraeg yn Ddymunol'. Yn ychwanegol, bydd y rheolwr llinell a Datblygu Sefydliadol yn asesu gofynion y Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd.

Cwynion

Mae Safonau 158, 164 a 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyda'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi a'r safonau gweithredol yr oedd yn ddyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â nhw.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gwynion yn cyfeirio at ein dyletswydd cydymffurfiaeth dan y *safonau cyflenwi gwasanaeth*, y *safonau llunio polisi* na'r *safonau gweithredol*.

Mae'r drefn Cwynion Corfforaethol yn cofnodi pob cwyn yn ymwneud â'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Gellir cyflwyno cwyn mewn unrhyw ddull (e.e. e-bost, llythyr, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac ati).

Derbyniwyd dwy gŵyn, a ddilynodd y Weithdrefn Gorfforaethol ar Gwynion, yn Gymraeg, yn ystod cyfnod yr adroddiad:

- 24 Mehefin 2015 - Cywirdeb poster a gwybodaeth ar-lein - cafodd hyn ei ddatrys.
- 3 Awst 2015 - Cywirdeb arwyddion mewn maes parcio aml-lawr newydd - cafodd hyn ei ddatrys.

Fodd bynnag, nid oedd y naill na'r llall o'r cwynion uchod yn ymwneud yn uniongyrchol â Safonau'r Gymraeg gan y daethant i law cyn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2015.

Sgiliau a Gallu yn y Gymraeg

Mae Safon 170 yn gofyn am nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.

Cafwyd yr wybodaeth ar gyfer yr adran yma gan yr adran Datblygu Sefydliadol a system iTrent y Cyngor ac mae'n dangos sgiliau yn y Gymraeg cyflogeion fel ar 31 Mawrth 2016.

Dylid nodi nad yw'r data yn hollol gyflawn. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r data a gedwir ar system iTrent yn cael ei diweddarau a bydd hyn yn parhau i wella yn unol â'r Prosiect Dewis Iaith a Modiwl Hunanddatganiad newydd yn y dyfodol agos iawn. Bydd gan staff wedyn y gallu a'r cyfrifoldeb i gynnal eu cofnodion eu staff eu hunain, gan eu gwneud yn gadarnach.


Y ffigur sylfaen ar gyfer y data yw 3,334, yn cynrychioli cyfanswm nifer y cyflogeion o fewn y Cyngor. Dylid nodi fod gan bob set data nifer dim-ymateb o rhwng 40 a 175 o staff. Mae'r nifer dim ymateb yn golygu'r rhai a ddewisodd beidio ateb cwestiwn neilltuol.

Roedd gan 750 o gyflogeion sgiliau yn y Gymraeg fel ar 31 Mawrth 2016, a chaiff hyn ei gategoreiddio fel staff sy'n gallu siarad 'ychydig', 'gweddol', 'eithaf da' neu 'rhugl'. Fodd bynnag dywedodd tri chwarter y staff nad oes ganddynt unrhyw allu i siarad Cymraeg.

Siarad Cymraeg	Nifer
Tymaid Bach	476
Cymedrol	211
Eithaf Da	23
Rhugl	40
Dim Gallu	2,485
Dim Ymateb	99
Cyfanswm	3,334


Mae nifer a chanran y staff a all ddeall, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn amrywio ychydig rhwng pob cymharydd, a dangosir hynny yn y graffiau islaw:

Graff 1: Deall Cymraeg (%)




Deall Cymraeg	Nifer
Tymaid Bach	531
Cymedrol	260
Eithaf Da	32
Rhugl	44
Dim Gallu	2,427
Dim Ymateb	40
Cyfanswm	3,334

Graff 2: Siarad Cymraeg (%)




Siarad Cymraeg	Nifer
Tymaid Bach	476
Cymedrol	211
Eithaf Da	23
Rhugl	40
Dim Gallu	2,485
Dim Ymateb	99
Cyfanswm	3,334

Graff 3: Ysgrifennu Cymraeg (%)



Ysgrifennu Cymraeg	Nifer
Tymaid Bach	378
Cymedrol	173
Eithaf Da	27
Rhugl	37
Dim Gallu	2,544
Dim Ymateb	175
Cyfanswm	3,334

Graff 4: Darllen Cymraeg (%)



Darellen Cymraeg	Nifer
Tymaid Bach	405
Cymedrol	197
Eithaf Da	36
Rhugl	43
Dim Gallu	2,517
Dim Ymateb	136
Cyfanswm	3,334

Fel y dengys y graffiau hyn, mae'r ffigurau'n debyg iawn ar draws pob un o'r 4 cymharydd, ond mae'n ddiddorol nodi bod nifer uwch o staff yn deall Cymraeg o gymharu â siarad ac, yn neilltuol, ysgrifennu.

Mae'r canran o staff a ddywedodd eu bod yn 'rhugl' tua 1.3%, tra bod y canran a ddywedodd 'dim gallu' yn nes at 75%. Dengys hyn fod tua 25% o staff yn dweud fod ganddynt ryw allu yn y Gymraeg, er bod 'Ychydig' yn cyfrannu'n sylweddol fwy na 'Gweddol', 'Eithaf Da' a 'Rhugl' gyda'i gilydd.

Mae hefyd yn ddiddorol edrych ar allu yn y Gymraeg yn ôl adran a math contract, er y dylid ailadrodd fod yr wybodaeth yma rywfaint yn anghyflawn wrth i feysydd data iTrent barhau i gael eu glanhau a'u diweddarau.

Rhagwelwn fod mewn gwirionedd mwy o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl nag a ddangosir islaw, yn arbennig mewn Addysg (staff mewn ysgolion) a bydd y gwaith cyfredol i ddiweddarau cofnodion yn gallu dangos hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl adran:

Adran	Nifer
Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth	1
Addysg	31
Amgylchedd	3
Gwasanaethau Cymdeithasol	5
Adnoddau	0
Cyfanswm	40

Siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl math contract

Math Contract	Nifer
Cyfnod Sefydlog	9
Parhaol	17
Llanw	3
Dros Dro	11
Cyfanswm	40

Fel y nodir uchod, dim ond 17 o'r siaradwyr Cymraeg sydd â chontractau parhaol. Gallai hyn fod yn risg yn y dyfodol os oes nifer fawr o gontractau yn dod i ben o fewn yr un cyfnod.

Cyrsiau Hyfforddi i Gyflogeion

Mae Safon 170 yn gofyn am:

- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn;
- Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

Ni chafodd unrhyw gyrsiau hyfforddi eu cynnig yn y Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad, er bod cyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael. Mynychodd cyfanswm o 170 aelod o staff y cyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth hyn hyd at fis Mawrth 2016.

Diben y cyrsiau hyn fu codi ymwybyddiaeth staff o'r ffordd y bydd Safonau'r Gymraeg yn effeithio ar eu meysydd busnes ar lefel ymarferol. Mae mwyafrif y staff a fynychodd yn ymwneud â'r cyhoedd ac felly teimlid y dylid targedu'r cohort hwn yn neilltuol.

Yn ogystal â hyn, sefydlwyd cyrsiau Cymraeg hefyd ac mae mwy ar y gweill. Dynodwyd fod angen i staff Derbynfa a'r Ganolan Gyswllt gynyddu eu sgiliau a sefydlwyd cwrs ar y cyd drwy Fenter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy rhwng y Cyngor hwn a chynghorau Torfaen a Sir Fynwy.

Cynlluniwyd y cwrs yn benodol ar gyfer staff Derbynfa a Chanolfan Gyswllt a chafodd ei redeg am 2 sesiwn 2 awr bob wythnos am 12 wythnos. Bu'r cwrs yn

llwyddiannus iawn gan arwain at welliant sylweddol yng ngallu a hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae cyrsiau pellach ar y gweill ar gyfer diwedd Gwanwyn 2016.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad am i unrhyw gyrsiau fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Recriwtio - Gofynion Sgiliau yn y Gymraeg

Mae Safon 170 yn gofyn am nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:-

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Hysbysebodd y Cyngor gyfanswm o 184 o swyddi yn ystod cyfnod yr adroddiad. Ni ddynododd unrhyw un o'r swyddi newydd na'r swyddi gwag fod 'sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol' neu 'nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Ymhellach ni ddynodwyd unrhyw swyddi lle'r oedd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd. Serch hynny, dynodwyd fod angen mwy o sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer tair swydd bresennol, a threfnwyd hyfforddiant ar gyfer y staff hyn (1 Derbynydd a 2 aelod o staff y Ganolfan Cyswllt).

Cytunwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad (15 Chwefror 2016) y byddai sgiliau yn y Gymraeg 'yn ddymunol' ar gyfer pob swydd. Fel canlyniad mae pob disgrifiad swydd yn nodi fod sgiliau yn y Gymraeg yn ofyniad 'dymunol' ac felly ni fydd unrhyw swyddi byth yn nodi 'nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg'.

Cafodd 21 o swyddi eu hysbysebu yn ystod y cyfnod 15 Chwefror 2016 - 31 Mawrth 2016 gyda 9 ohonynt yn cael eu hysbysu'n allanol. Roedd sgiliau yn y Gymraeg yn 'ddymunol' ar gyfer pob un ohonynt.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi uchafbwyntiau a'r darnau sylweddol o waith sy'n dangos sut yr aethom ni fel Cyngor ati i ddiwallu'r gofynion a nodwyd yn Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015.

Er nad yw'r adroddiad hwn yn nodi pob darn o waith a wnaed i gyflawni gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth, gobeithir ei bod yn rhoi arwydd gwerth chweil.

Daeth nifer o ganfyddiadau allweddol i'r amlwg o'r Adroddiad Blynyddol a byddir yn mynd ymlaen gyda'r rhain mewn trafodaethau a chynllunio busnes wrth i ni geisio sefydlu'r Safonau ymhellach.

Mae gan Gyngor Blaenau Gwent ymroddiad i wella nifer, defnydd a datblygu'r Gymraeg yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a'i nod o "Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".